

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:

18/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:

24 MAWRTH 2016

Adolygu'r Dystiolaeth – Systemau Ariannol Llywodraeth Leol, Trethu Lleol A Dyrannu Adnoddau Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adolygiad tystiolaeth hwn yn deillio o gynllun ad-drefnu Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol y wlad. Mae'r cynllun ad-drefnu yn ei dro yn tarddu o'r awgrymiadau a wnaeth y Comisiwn Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams) ym mis Ionawr 2014, a'r gwaith a ddilynodd hynny o ymgynghori a datblygu polisiau yn ymwneud ag ad-drefnu. Gwnaed hyn drwy gyfres o bapurau gwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys cynigion ynghylch diwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r papurau hefyd yn trafod y cynnig i ad-drefnu fel bod llai o gynghorau mwy o faint ynghyd â diwygiadau eraill o ran diwylliant, arweinyddiaeth, perfformiad a chynllunio corfforaethol.

1.2 Yng nghyd-destun y cynllun diwygio cyfredol hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, mae'r Adolygiad hwn yn edrych ar yr wybodaeth a'r gwaith ymchwil sy'n bodoli'n barod i gadarnhau i ba raddau mae modd iddo fod yn sail ar gyfer dewisiadau posib o ran sut i ariannu a chyllido Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol.

2. Mynd ati

2.1 Bu i'r Adolygiad edrych ar lawer iawn o ddeunydd Prydeinig a rhyngwladol gan gynnwys papurau swyddogol, astudiaethau academiaidd, adolygiadau pwysig, a chomisiynau a ffynonellau yn seiliedig ar brofiad a gwaith bob dydd. Aethpwyd ati i hidlo'r deunydd drwy osod meini prawf eang i weld pa mor berthnasol a phriodol oedd y deunydd i sefyllfa Cymru. Cyfwelwyd â nifer fechan o arbenigwyr i wirio fod yr Adolygiad yn edrych ar yr agweddau mwyaf perthnasol. Mae Adran 3 yn egluro methodoleg yr Adolygiad mewn manylder. Mae Adran 4 yn amlinellu'r cyd-destun Cymreig ac yn amlygu rhai o'r ffactorau allweddol a ddefnyddiwyd i brofi pa mor berthnasol oedd y dystiolaeth a pha mor hawdd fyddai ei throsglwyddo i sefyllfa arall.

3. Cydbwysedd Ariannu

3.1 Mae Adran 5 yn edrych ar fater cydbwysedd ariannu mewn llywodraeth leol. Bu hyn yn daten boeth ers tro i lywodraeth leol yng Nghymru, gweddill y Deyrnas Gyfunol ac ar lefel ryngwladol ac mae llawer o waith ymchwil yn bod ynghylch hyn. Mae'r adran hon yn edrych ar y safbwyntiau damcaniaethol a'r canfyddiadau naturiol o blaid ac yn erbyn mwy o ymreolaeth ac yn edrych hefyd ar y cyfaddawdu fydd ei angen yn wyneb y tensiwn rhwng ymreolaeth leol a thegwch cymdeithasol. Mae'r adran hon hefyd yn edrych ar sut mae'r cydbwysedd ariannol yn gweithio'n ymarferol a bydd yn ystyried sut ellid newid pethau o bosib

3.2 Ar lefel ryngwladol mae sawl system amrywiol iawn o ariannu a chyllidebu awdurdodau lleol a does dim ffordd gyson o wneud hyn y gellid ei throsglwyddo'n uniongyrchol i sefyllfa Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos gwahaniaethau mawr mewn systemau trethu, faint o refeniw a godir fel cyfran o gyfanswm y dreth genedlaethol, cyfran y refeniw hunan-gyllidol a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol. Ymhlith y rhain i gyd mae cymhlethdodau statws a grym felly dylid gochel rhag gwneud unrhyw gymhariaeth syml.

3.3 Un nodwedd o lywodraeth leol yng Nghymru ydy'r lefel gymharol uchel o reolaeth a dylanwad canolog (drwy gyfuniad o rymoedd o du Llywodraeth Y DG a Llywodraeth Cymru) a lefel gymharol fach o ymreolaeth ariannol. At hyn, mae llywodraeth leol Cymru yn ddibynnol iawn ar un ffynhonnell o drethiant lleol (treth y cyngor) mewn ffordd sy'n gymharol anghyffredin o edrych ar y sefyllfa ryngwladol.

3.4 Mae angen seilio unrhyw newid yn y cydbwysedd ariannu ar y ffurf a'r dyletswyddau sydd wedi eu diffinio ar gyfer swyddogaethau cymharol llywodraeth leol a llywodraeth ganol. Mewn systemau democrataidd, mae llywodraeth leol a llywodraeth ganol yn gyd-ddibynnol yn eu hanfod, ac mae angen cadw hyn mewn cof wrth ddylunio systemau a phenderfynu ar bwy fydd yn atebol i bwy.

3.5 Mae dau ddimensiwn penodol sy'n effeithio ar benderfyniadau o ran cydbwysedd ariannu. Y cyntaf yw'r graddau y mae datganoli ariannol yn ffactor cyffredinol mewn llywodraethu lleol da, ymatebol. Yn hyn o beth, mae datganoli i'r haen isaf un o lywodraeth yn hanfodol os am gael democratiaeth leol gref. Yr wrth-ddadl yw ei bod hi'n bosib i haenau is o lywodraeth na'r llywodraeth genedlaethol fod yn gymharol aneffeithiol o ran atebolrwydd democrataidd ac mewn peryg o gael eu cipio gan grwpiau elit neu grwpiau diddordeb. Mae'r grwpiau hyn yn llywodraethu er lles eu diddordebau eu hunain ac nid er budd y gymuned. Mae'r graddau y mae sefyllfa o'r fath yn bodoli, neu mewn peryg o fodoli, y golygu y gall fod angen herio a rheoleiddio cadarn o'r canol neu gan ffynonellau annibynnol, ac yn gofyn am fesurau i wella democratiaeth leol.

3.6 Yr ail fater sy'n dylanwadu ar ba mor hawdd mae modd trosglwyddo'r profiad yw'r graddau y mae cydraddoli yn bosib ac yn angenrheidiol. Mae swmp y dystiolaeth yn dod i'r casgliad fod cydraddoli wrth wraidd tegwch. Fodd bynnag, mae beirniadaeth nodweddiadol o gydraddoli sy'n honni fod hyn yn arwain at ddibyniaeth yn lle hunan-gynhaliaeth.

3.7 Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu fod yr her o gydraddoli yn berthnasol i faint yr uned benodol honno o lywodraeth leol. Lle mae'r ôl-troed llywodraethu yn fwy, mae gan y cynghorau lleol fel rheol fwy o gymhwysedd i ailddosbarthu'n fewnol. Fodd bynnag, mae amgylchiadau cymdeithasol, economaidd a demograffig gwahanol ar draws Cymru yn awgrymu y gellir bod angen gwneud gwaith pellach i ganfod i ba raddau y bydd hyn yn wir os caiff llywodraeth leol Cymru ei diwygio.

3.8 Un dewis o ran cynyddu faint o arian a godir yn lleol fyddai cyflwyno neu gynyddu tal gwasanaeth. Mae sail mewn damcaniaeth economaidd dros godi tal am wasanaethau, ac mae tystiolaeth y bydd y cyhoedd yn ei gweld hi'n rhesymol talu am rai gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn nodi sefyllfaoedd lle byddai hi efallai'n amhriodol codi tal, ac amgylchiadau lle y byddai hi'n llai effeithiol gwneud hynny, er enghraifft oherwydd pryderon am les y cyhoedd, am gydraddoldeb neu am ailddosbarthu.

3.9 Mater o farn wleidyddol yw hi o ran pwy ddylai ysgwyddo unrhyw feichiau newydd fyddai'n ganlyniad newidiadau o'r fath, i'r graddau bod cyfaddawd rhwng codi tal a ffyrdd eraill o drethu, a beth yw'r cydbwysedd cywir rhwng arian y trethdalwr a chodi tal ar ddefnyddwyr.

3.10 Hefyd, tra bod codi tal am wasanaethau wedi dod yn fwyfwy cyffredin gydag amser, lle bo angen arbedion mawr, mae llywodraethau lleol wedi tueddu i gomisiynu gwasanaethau o ffynonellau allanol neu gyfyngu ar wasanaeth drwy gyfrwng meini prawf i leihau cymorth y sector cyhoeddus. Y dewis arall oedd codi tal sylweddol fel y gallai'r sector cyhoeddus ddal ati i gynorthwyo'n uniongyrchol.

4. Trethu lleol a chodi arian

4.1 Mae adran 6 yn edrych ar y dewisiadau posib o ran diwygio trethiant lleol. Mae'n archwilio'r arferion amrywiol sy'n codi o dystiolaeth ryngwladol a gasglwyd o'r gwledydd sy'n aelodau o'r Sefydliad Datblygu a Chydweithredu Economaidd ac yn adnabod yr egwyddorion posib a allai arwain y newid hwnnw. Yn benodol, mae'r Adolygiad yn ystyried yr achos o blaid ac yn erbyn treth incwm lleol a goblygiadau posib hynny. Mae'r adran hon hefyd yn edrych ar y newidiadau posib o ran cyfraddau annomestig neu drethi busnes, gan edrych ar dystiolaeth a phrofiadau o bob rhan o'r DG. Edrychir hefyd ar dreth eiddo o safbwynt damcaniaethol ac ymarferol gan ystyried profiadau gwledydd eraill o ddiwygio eiddo.

4.2 Caiff trethi eiddo eu defnyddio'n helaeth mewn llywodraethau lleol ar draws y byd er eu bod ar y cyfan yn ffurfio dim ond rhan fechan o arian llywodraethau lleol. Mae pobl yn eu hoffi oherwydd bod sail trethiant clir iddyn nhw, eu bod yn anodd eu hosgoi ac oherwydd eu bod yn hyrwyddo ymreolaeth leol. Mae'r dadleuon yn eu herbyn yn troi o amgylch gwrthwynebiad trethdalwyr, heriau o ran ailbrisio a diffyg perthynas uniongyrchol rhwng y rheidrwydd i dalu a'r gallu i wneud hynny. Mae corff helaeth o lenyddiaeth yn ymdrin â diwygiadau posib i dreth y cyngor. Mae'r cynigion dros ddiwygio posib yn weddol gyson o ran cynnig mwy o fandiau cyngor treth a mesurau penodol i fynd i'r afael â

thegwch gyda golwg ar incwm isel law yn llaw â systemau ailbrisiu gwell a chyson.

4.3 O gofio bod llywodraeth leol yn y DG ac yng Nghymru yn anarferol o ddibynnol ar un ffurf o drethiant lleol (treth y cyngor), mae archwiliadau olynol wedi ystyried ychwanegiadau a dewisiadau amgen ers adolygiad Pwyllgor Layfield ym 1976. Daw llawer o'r rhain i'r casgliad bod achos dros sefydlu treth incwm lleol a bod hyn yn ffynhonnell newydd sylweddol ac ymarferol o incwm posib ar gyfer awdurdodau lleol

4.4 Mae'r rhai sy'n bleidiol i hyn yn dadlau bod treth incwm yn 'decach' na threth eiddo gan fod perthynas agosach rhwng y swm sydd i'w dalu a'r gallu i dalu. Mae eraill yn awgrymu y byddai newid sylweddol o ffurf o drethiant yn seiliedig ar eiddo i dreth incwm yn ailgydbwysu'r baich treth oddi ar y cartrefi hynny lle mae pobl wedi ymddeol sydd wedi cronni arian i'r boblogaeth sydd mewn oed gwaith. Hefyd, gall treth incwm fod yn fwy cyfnewidiol na threth eiddo felly hwyrach y byddai angen y cymhwysedd ar y systemau ariannu lleol sy'n ddibynnol ar hyn i addasu ar gyfer amrywiadau, er enghraifft, drwy drafod grymoedd ariannol neu'r gallu i fenthycu arian sylweddol gyda'r llywodraeth ganol.

4.5 Mae treth incwm lleol yn ffordd bosib o amrywio sail trethiant lleol a chynnyddu hyfywedd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu ei bod hi'n afresymol disgwyl i hyn gyfrannu at gynnydd sylweddol cyffredinol yng ngallu pobl i wario. Fe allai cynyddu cyfraddau treth incwm lleol fod mor ddadleuol â chynnydd mewn biliau treth cyngor.

4.6 Mae diwygio'r gyfradd annomestig yn elfen bosib allweddol arall i'w hystyried o ran mwy o ymreolaeth ariannol leol. Mae Adolygiad Morgan yng Nghymru (Morgan 2012), yr Adolygiad Annibynnol o Arian Llywodraeth Leol yn Lloegr (ICLGF 2015) ac yn ddiweddar iawn, Canghellor presennol y Trysorlys (Osborne 2015) i gyd wedi dadlau dros ail-leoleiddio incwm o'r dreth ar y sail y byddai dal eu gafael ar fwy o arian yn fodd i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar dwf.

4.7 Er y byddai cydraddoli yn dal yn angenrheidiol, dadleuir y byddai awdurdodau'n fwy hunangynhaliol dros amser oherwydd y gallu i gadw mwy o arian. Mae arbenigwyr eraill yn credu i'r gwrthwyneb yn llwyr ac o'r farn na all awdurdodau lleol gael fawr ddim effaith, os o gwbl ar dwf economaidd ac y byddai diwygio yn y fath fodd yn arwain at fwy o anghydraddoldeb.

4.8 Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn awgrymu na all unrhyw ffurf unigol o dreth gynnwys yr holl briodoleddau delfrydol fyddai eu hangen ar gyfer system drethu leol effeithiol ac effeithlon. Mae sawl system o lywodraeth leol yn dibynnu ar sawl ffynhonnell o dreth. Mae manteision posib i ddibynnu ar amrywiaeth o drethi gyda seiliau gwahanol, sef gwell sefydlogrwydd a hyfywedd lleol, a'r tebygolrwydd y bydd y baich yn decach.

4.9 Os yw ymreolaeth leol yn golygu bod llywodraeth leol yn edrych i weithio'n wahanol o le i le, neu'n edrych ar godi arian mawr yn lleol i fynd i'r afael â heriau lleol neu i ariannu gwasanaethau, mae'r dystiolaeth yn dangos ei bod hi'n hanfodol trafod yn effeithiol gyda dinasyddion.

5. Dyrannu adnoddau

5.1 Yn Adran 7 mae'r Adolygiad yn archwilio'r ffyrdd gwahanol o ddynodi a dyrannu adnoddau. Mae'r adran hon yn ystyried y ffordd draddodiadol o wneud hyn yng Nghymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol ac yna'n edrych ar ddadleuon o blaid ac yn erbyn ffyrdd gwahanol posib o ddiwygio. Mae'r Adolygiad yn edrych yn benodol ar ffyrdd sydd wedi ceisio gwella perfformiad drwy gyfrwng systemau ariannu a chyllido.

5.2 Mae'r ffordd o ddyrannu grantiau canolog i awdurdodau lleol yng Nghymru yn seiliedig ar ddull sydd wedi'i seilio i raddau helaeth ar brofiadau'r gorffennol. Yn cydbwysu hyn mae "asesiadau gwario safonol" sy'n seiliedig ar fformiwlâu. Mae systemau tebyg ond gwahanol ar waith yn Lloegr a'r Alban.

5.3 Mae'r ffordd draddodiadol o weithredu wedi tueddu i roi sefydlogrwydd a modd o ragweld pethau. Fodd bynnag, caiff ei feirniadu am roi ystyriaeth annigonol i'r cysyniad o 'angen,' ac felly o fod yn annheg i fannau gydag amgylchiadau mwy eithafol fel ardaloedd amddifadus neu rai bychain eu poblogaeth. Mae eraill yn dadlau fod y system yn niwlog a rhy gymhleth ac y byddai'n fwy effeithlon cael system sy'n fwy eglur a syml.

5.4 Yn fwy diweddar mae tuedd i ddyrannu adnoddau ar sail deilliannau neu ganlyniadau neu ar sail dyhead a dewisiadau cymunedol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi dadlau nad yw taliadau ar sail canlyniadau yn berthnasol i bob cyd-destun ac na ellir ei ystyried fel model cyffredinol. Hefyd, mae effeithiolrwydd yn dibynnu ar y gallu i osod a diffinio canlyniadau y mae modd eu hasesu'n ystyrlon o ran y deilliannau a gyflawnwyd, a'r gallu hefyd i briodoli perthynas. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn cael hyn yn anodd, yn arbennig wrth fynd i'r afael â'r heriau cymhleth maen nhw'n eu hwynebu.

6. Egwyddorion Newid

6.1 Does dim ffordd ddelfrydol o ddewis systemau ariannu a chyllido lleol. Yn hytrach, mae angen cyfaddawdu rhwng y gwahanol bosibiliadau. Fodd bynnag, wrth bwysu a mesur y dewisiadau posib, rhaid gwneud hynny yng ngoleuni damcaniaeth egwyddorol o newid. Mae Adran 8 felly'n edrych ar ba egwyddorion allai ddylanwadau ar y dewisiadau hynny yng Nghymru.

6.2 Mae diwylliant ac arferion, disgwyliadau gwleidyddol ac agweddau at wasanaethau cyhoeddus ymysg y ffactorau sy'n dylanwadu ar i ba raddau mae modd trosglwyddo profiadau rhwng gwledydd ac mae'n egluro'r amrywiaeth sydd yno o ariannu llywodraeth leol o wlad i wlad. Er enghraifft, mae rhai gwladwriaethau yn ystyried y byddai'n fwy priodol cael cyfran uwch o wasanaethau lleol, a bod angen darpariaeth a chyfrifoldebau lleol i gyd fynd â hynny. Eto, mae eraill yn gweld cyfran uwch o wasanaethau fel rhai cenedlaethol yn eu hanfod, ac yn gweld felly bod cysondeb cenedlaethol, ac felly rheolaeth genedlaethol, yn fwy o flaenoriaeth.

6.3 Er mwyn diwygio'r ffordd o ariannu llywodraeth leol yn effeithiol, mae angen edrych ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd. Bydd hyn yn fodd o adlewyrchu natur gyd-ddibynnol ac amrywiol y system ac ymateb i hynny. Mae angen i'r diwygio hefyd fod yn addas i natur gyfnewidiol y cyd-destun gwleidyddol a gweinyddol y dyluniwyd y system ar ei chyfer. Mae hyn yn golygu fod angen i lywodraeth leol fod yn glir ynglŷn beth yw ei swyddogaeth, ei chyfrifoldebau a'i dyletswyddau. Mae hefyd yn golygu penderfynu pa lefel o lywodraeth ddylai ddarparu pa wasanaethau. Mae diwygio'r ffordd o ariannu a chyllido awdurdodau lleol yn fodd o ddarparu polisïau a gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithiol. Eto, ni ellir edrych ar hyn mewn gwagle. Cyfyngedig fydd y manteision yn absenoldeb amcanion clir, polisi effeithiol, darpariaeth gref o wasanaethau lleol a gwerthuso cyson a chadarn.

7. Casgliad, barn ac ystyriaethau

7.1 I gloi'r Adolygiad, mae adran 9 yn crynhoi'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig â rhai o'r prif faterion sy'n berthnasol i'r cyd-destun Cymreig ac sy'n deillio o adroddiad Comisiwn Williams:

- Cymhlethdod, llywodraethu ac atebolrwydd – Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gymhleth iawn ac mewn gwlad fach fel hon mae diddordeb cyffredin, dealladwy gan bob elfen o lywodraeth ganol a llywodraeth leol ym mha mor llwyddiannus yw canlyniadau. Mae systemau ariannu a chyllido yn adlewyrchu'r cymhlethdod hwn a rhaid i ddiwygio effeithiol ymateb i'r sawl gwahanol fath o gysylltiad a pherthynas rhwng ffurf, swyddogaeth ac arian, gan edrych ar y system yn ei chyfanrwydd. Mae'n well meddwl am lywodraethu ac atebolrwydd fel agweddau amlweddog, rhwydweithiol yn hytrach na rhai deuol, hierarchaidd. Yn yr un modd, does dim modd ateb cwestiynau ynghylch trethu lleol mewn gwagle oherwydd, yn un peth, does dim modd i un fath o dreth ymgorffori pob amcan neu nodwedd ddelfrydol. Hefyd, mae sut orau i ddyrannu adnoddau prin yn dibynnu'n rhannol ar benderfyniadau ynglŷn â maint awdurdodau lleol, eu cyfrifoldebau a'r graddau mae'r awdurdodau canolog yn rheoli, ac yn dymuno rheoli, gwariant lleol.
- Graddfa - Mae canfyddiadau'r Adolygiad hwn yn awgrymu y gallai fod mwy o ymreolaeth leol, ac felly cymeriad mwy unigryw, mewn awdurdodau llai o faint. Fodd bynnag, fe allai hyn olygu bod angen mwy o ymyrraeth ganolog er mwyn cael tegwch wrth ddosbarthu. Mewn geiriau eraill, mae cydberthynas sylfaenol rhwng llywodraeth leol a llywodraeth ganol. Mae perthynas hefyd rhwng graddfa a'r themâu eraill yn y rhestr hon sy'n hanfodol wrth edrych ar newid yn ei gyfanrwydd. Mae diwygio effeithiol yn gofyn am fwy na dim ond ail-lunio ffiniau neu ailstrwythuro mudiadau.
- Gwerthoedd a diwylliant arweinyddol – Mae canfyddiadau'r Adolygiad hwn yn awgrymu bod angen i ddiwygiadau ariannol a chyllidol gefnogi'r ffyrdd a'r agweddau (hen a newydd) sy'n anelu at ddarparu a datblygu gwasanaethau yn fwy effeithiol ac effeithlon, a herio'r rheini sy'n gwanhau neu'n llesteirio'r amcanion hyn. Bydd hyn yn golygu holi ynghylch oes angen, ac i ba raddau mae angen herio a gwyro oddi wrth yr arfer o gydweithio a symud tuag at system o ddewis a chystadleuaeth a/neu y gallu a'r

parodrwydd ar ran dinasyddion a busnesau i dalu am wasanaethau.

- Perfformiad – Mae'r dystiolaeth yn dangos bod modd symud tuag at ffordd o weithio sy'n rhoi mwy o bwys ar ganlyniadau os, a dim ond os, y caiff agweddau cysylltiol a pherthnasol eraill eu diwygio hefyd. Mae hyn yn golygu polisiau a dyluniad a darpariaeth gwasanaethau penodol ynghyd â phrosesau gwerthuso. Mae'r Adolygiad hwn hefyd yn dod i'r farn bod mewnbynnau ac allbynnau yn ddefnyddiol o ran diwygio'r system yn ehangach ac y byddai hynny o gymorth gydag atebolrwydd ac eglurder hefyd. Does dim modd rhoi sylw i ddiwygio ariannol heb ddeall yn well y nodau a osodwyd ar gyfer llywodraeth leol. Yn benodol, os am weld diwygio ariannol llwyddiannus mae'n rhaid wrth fframweithiau perfformio a gwella effeithiol i gyd fynd â hynny.

7.2 At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn gymhleth ac nid yw'n cynnig un model unigol ar gyfer diwygio'r ffordd o ariannu llywodraeth leol. Yn hytrach, mae'n crybwyll yr angen i gyfaddawdu'n rhesymol a gwneud dewisiadau polisi gan bwysu a mesur ystyriaethau allweddol fel:

- Sut i adnabod a rhoi sylw i'r cydberthynas fertigol a llorweddol rhwng llywodraeth leol, llywodraeth ganol a gwasanaethau cyhoeddus eraill wrth ddylunio ac aildrefnu llywodraeth leol, gan gynnwys newidiadau ariannol a chyllidol;
- Ar un llaw, yr angen am degwch rhwng gwahanol lefydd, ac ar y llall, awydd llywodraethau lleol i adlewyrchu anghenion a dyheadau eu hardaloedd eu hunain;
- Ar un llaw, yr awydd i annog llwyddiant, ac ar y llall, yr anhawster o gosbi perfformiad gwael lle byddai cosbau o'r fath yn effeithio ar bobl sy'n talu trethi ac yn defnyddio gwasanaethau;
- Y cydbwysedd rhwng pa wasanaethau dylai pob trethdalwr dalu amdanyn nhw a pha rai dylai'r defnyddwyr dalu amdanyn nhw;
- Ar un llaw, yr angen am fformiwlâu dyrannu sy'n rhoi darlun llawn o angen, ac ar y llall, y dyhead am system seml ac eglur;
- Yr angen i ennill a chadw cefnogaeth boblogaidd a gwleidyddol er mwy diwygio'r system a sefydlu un newydd.

Adroddiad awduron: Mike Bennett, Tim Allen ac Clive Grace, UK Research and Consultancy Services Ltd

Adroddiad ymchwil llawn:

<http://llyw.cymru/statistics-and-research/evidence-review-systems-local-government-finance-local-taxation-resources-allocation/?lang=cy>

Safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn rhai o'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Clare Blake

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

Ebost: Clare.Blake@wales.gsi.gov.uk